Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol

# ar gyfer 2024-2025

Crynodeb o Brif Sylwadau'r Ymgynghoriad

***DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu safbwyntiau a dehongliadau ymatebwyr fel y'u rhoddwyd yn eu hymatebion.***

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Setliad Dros Dro o 2.8%

Mae'r Cyngor yn nodi bod ei setliad dros dro o 2.8% yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 3.1%, sy'n gynnydd o £7.928m ar gyfer 2024-25. Am fod y pwysau ariannol ar y Cyngor o Wasanaethau Cymdeithasol, Digartrefedd, Addysg, Gwasanaethau Tân ac Achub ynghyd â'i swyddogaethau eraill yn gwneud cyfanswm o £30.5m, ceir bwlch cyllideb sylweddol.

Mae'n mynegi pryder nad yw dyraniadau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu dull gweithredu ar sail system ac nad ydynt yn gydradd. Mae'n anghynaliadwy i'r Cyngor ariannu'r pwysau ar ofal cymdeithasol drwy dorri cyllid ei wasanaethau eraill. Mae costau etifeddol COVID-19 ynghyd â methiannau'r farchnad a thueddiadau demograffig yn golygu bod angen cyllid ychwanegol gan y llywodraeth.

Wrth i GIG Cymru fynd â chyfran fwyfwy o gyllideb Llywodraeth Cymru, bydd gwasanaethau cymdeithasol yn defnyddio swm cynyddol o'r cyllid a ddyrennir i gynghorau a thrwy hynny'n cynyddu'r risg y bydd gwasanaethau eraill yn crebachu ymhellach. Bydd risgiau annerbyniol o fethiant gwasanaethau a risg uwch y bydd mwy o gynghorau yn wynebu anawsterau ariannol.

Erys pwysau gwirioneddol mewn ysgolion o hyd hefyd. Bydd y setliad yn cael effaith sylweddol ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed a bydd penaethiaid yn gorfod lleihau nifer y staff cymorth a rhaglenni ymyrryd er mwyn cynnal y cymarebau rhwng athrawon a disgyblion. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle bydd mwy o ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd cadw eu lle yn yr ysgol, bydd lefelau presenoldeb yn gostwng a bydd mwy o achosion o wahardd a fydd yn arwain at fwy o bwysau ariannol wrth i gynghorau gyllido darpariaeth amgen gostus.

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cydnabod y dewisiadau anodd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud ond mae'n gofyn am addasiadau pellach i'r setliad terfynol er mwyn lleddfu rhywfaint ar y pwysau ar y Cyngor. Mae'n annog yn gryf y dylid cael gwared ar y cap ar ffioedd gofal cartref, sy'n seiliedig ar allu defnyddwyr gwasanaethau i dalu, a fyddai'n codi swm bach o incwm.

Ni fydd y Cyngor yn gallu amsugno effaith rhewi, lleihau neu ddileu grantiau penodol ac mae'n gofyn am i'r toriad arfaethedig i Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol gael ei adolygu. Bydd yn anodd lleihau'r cyllid grant am ei fod yn cefnogi costau gofal cymdeithasol i oedolion na ellir eu hosgoi. Mae'r Cyngor yn gofyn am eithriad hefyd i'r toriad arfaethedig i'r Grant Cymunedau dros Waith. O ystyried effaith enfawr cyhoeddiad Tata, mae'n teimlo ei bod yn amhriodol torri buddsoddiad yn y gwasanaeth hwn pan fydd cymaint o swyddi yn cael eu colli.

Gan mai Gweinidogion Cymru sy'n negodi dyfarniadau cyflog athrawon mae'n rhesymol disgwyl i Lywodraeth Cymru naill ai gynnwys dyfarniadau cyflog yn y cyllid sydd ar gael i gynghorau neu ychwanegu at y gyllideb os byddant yn setlo uwchlaw'r cyllid a ddarperir, yn hytrach na disgwyl i'r awdurdodau orfod talu'r costau llawn.

Nodir y cynnydd yn lefel y cyfraniadau ar gyfer cynlluniau pensiwn athrawon a'r gwasanaeth tân ac mae ar ddeall y bydd Llywodraeth y DU yn darparu dyraniadau ychwanegol i dalu'r costau sylweddol hyn. Gofynnir am gadarnhad cynnar y bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo'r cyllid hwn yn llawn i gynghorau.

Mae hefyd yn ceisio sicrwydd y bydd beichiau newydd heb eu hariannu yn cael eu hosgoi.

Mae'r Cyngor yn wynebu galw digynsail am ei wasanaethau yn sgil yr ymateb etifeddol i COVID-19, yr argyfwng costau byw sy'n parhau, tueddiadau demograffig amrywiol, mentrau polisi newydd a chynnydd yng nghostau gwasanaethau. Mae'r bwlch cyllideb yn golygu na fydd gan y Cyngor unrhyw ddewis ond cynyddu'r Dreth Gyngor uwchlaw cyfradd chwyddiant, i ffigurau dwbl o bosibl. Mae'n ceisio cyfyngu ar y cynnydd am ei fod yn ystyriol o galedi ariannol ei gymuned. Os gweithredir ar y pwyntiau a godwyd gan y Cyngor bydd hynny'n ei helpu i geisio cyflawni hyn.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Setliad Dros Dro o 3.3%**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y sefyllfa heriol sydd ohoni o ran pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n gweld y galw am wasanaethau a chostau gwasanaethau yn cynyddu wrth i gyllid ostwng yn sylweddol mewn termau real a bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd wrth i'r Cyngor geisio diogelu gwasanaethau rheng flaen hanfodol. Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol wedi bod yn allweddol o ran helpu awdurdodau i wynebu'r sefyllfa heriol, gyda chyfathrebu agored ac ymddiriedaeth yn gonglfaen i'w hymateb i'r heriau a wynebir.

Roedd y ddau setliad blaenorol yn gadarnhaol iawn i gynghorau, gan helpu i ddiogelu gwasanaethau lleol a chadernid ariannol cyffredinol. Mae'n llwyr werthfawrogi'r heriau a'r penderfyniadau cyllido anodd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud ac yn cydnabod y rhagamcan y bydd yn cynyddu cyllid craidd o 3.1%, sy'n ei gwneud yn bosibl i wneud rhywfaint o flaengynllunio. Er y byddai ei sefyllfa ariannol yn waeth heb y diogelwch cymharol, mae methu o hyd ag ymdrin â'r pwysau difrifol y mae'n eu hwynebu.

Dylai naratif ynglŷn â dewisiadau anodd gael ei rannu a dylid osgoi unrhyw awgrym bod cynghorau mewn gwell sefyllfa nag ydynt mewn gwirionedd neu fod cyllid wedi cael ei ddarparu i gyflawni ymrwymiadau penodol.

Mae'n cefnogi'r cynnydd yng nghyllid y GIG ond mae maint y cynnydd hwnnw yn sylweddol o'i gymharu â'r hyn y gall llywodraeth leol ei ddarparu ym maes gofal cymdeithasol. Mae sector gofal cymdeithasol cadarn a ffyniannus yn hollbwysig i gynaliadwyedd y GIG a'i rôl o ran ymyrryd yn gynnar ac atal. Felly, mae'r Cyngor yn siomedig bod Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei ostwng ac mae'n gofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i'w adfer ac mae hefyd yn gofyn am newid i gynyddu'r cap ar ofal cymdeithasol. Byddai'r newidiadau cymharol fach yn cael effaith gadarnhaol yn 2024-25.

Mae Torfaen yn credu'n gryf y dylid adfer cyllid rheolaidd ar gyfer cytundeb cyflog athrawon yn 2023-24 yn hytrach na disgwyl i gynghorau ddod o hyd i'r cyllid yn y cynnydd o 3.1%. Mae'n hanfodol bod cyllid llawn yn cael ei ddarparu i gynghorau i dalu am y rhwymedigaeth i gyllido cyfraniadau pensiwn athrawon a diffoddwyr tân.

Mae'n croesawu'r penderfyniad i gyfuno grantiau addysg ac yn gobeithio y bydd yn arwain at leihau'r baich gweinyddol ymhellach ond erys pryder o hyd ynglŷn ag agweddau ar y cyllid grant, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto.

Mae'n deall yr ansicrwydd ar lefel y DU ond mae'n siomedig nad oes rhagamcan o lefelau cyllid yn y dyfodol. Disgwylir i'r Cyngor baratoi cynlluniau ariannol cadarn ar gyfer y tymor canolig neu wynebu sylwadau anffafriol gan reoleiddwyr os bydd yn methu â pharatoi un a chynllunio ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn anodd tu hwnt heb unrhyw amcan o gyllid craidd na chyllid grant yn y dyfodol ac mae'n arwain at lawer o waith cynllunio ar gyfer y sefyllfa waethaf bosibl a goblygiadau dewisiadau y mae'n rhaid eu gwneud.

Mae ei heriau yn y tymor canolig yn parhau i fod yn sylweddol ac mae'r angen i weithio mewn partneriaeth yn bwysig o hyd. Felly, mae angen cyllid i barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig.

Mae gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn parhau i fod yn fuddiol ac mae Torfaen yn ymrwymedig o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wireddu dyheadau a rennir dros ei ddinasyddion.

**Cyngor Sir Fynwy – Setliad Dros Dro o 2.3%**

Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn annigonol i ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus Sir Fynwy rhag chwyddiant a galw cynyddol ond mae'n cydnabod bod setliad 2024-25 yn rhoi cynnydd cyfartalog o 3.1% yn unol ag amcanion blaenorol.

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau mawr oherwydd yr argyfwng costau byw a bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd wrth bennu cyllideb y flwyddyn nesaf.

Mae Sir Fynwy yn dibynnu ar y dreth gyngor yn fwy nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru i ariannu ei wasanaethau ac mae'n ystyried ei chynyddu er mwyn osgoi effeithiau ychwanegol ar ysgolion a gwasanaethau rheng flaen. Mae'n croesawu'r cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sy'n agored i niwed sy'n talu eu treth gyngor a'r cyfle i ymateb i system treth gyngor decach a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

Mynegir pryder ynglŷn â dyfarniadau cyflog athrawon a llywodraeth leol a fydd yn cael effaith bosibl ar ei gyllideb. Er i'r dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer 2023-24 gael ei ariannu'n rhannol, nid oes unrhyw gyllid yn cael ei drosglwyddo i mewn i'r setliad y flwyddyn hon sy'n ychwanegu at y pwysau o ran cyflogau ar gyfer 2024-25. Mae'n annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â chyrff adolygu cyflog a datgelu cynigion cyflog disgwyliedig cyn pennu cyllideb oherwydd mae cynghorau yn cael eu gadael yn agored i bwysau posibl eraill o ran cyflogau.

Mae'n pryderu ynglŷn â sut y bydd yr adolygiad o Gynllun Pensiwn yr Athrawon yn effeithio ar bob awdurdod yng Nghymru. Mae'n awgrymu y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn cynyddu 5 pwynt canrannol i 28.6% o gyflog pensiynadwy o fis Ebrill 2024, gan arwain at gostau ychwanegol o tua £1.5m. Nid yw'r Cyngor yn ymgorffori hyn yn ei gyllideb ddrafft am ei fod yn tybio y bydd Llywodraeth y DU yn ariannu'r cynnydd yn llawn ac yn disgwyl y bydd cyllid canlyniadol i Gymru. Mae'n cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i bwyso ar Drysorlys y DU am sicrwydd yn hyn o beth.

Mae'n wynebu heriau o ran diwallu anghenion ei bobl fwyaf agored i niwed gyda'i sector gofal yn wynebu problemau recriwtio a chadw. Mae'n gwerthfawrogi'r cyllid sy'n sicrhau y telir y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf i weithwyr gofal ond mae grymoedd y farchnad yn peri i gyflogau gynyddu'n fwy na'r lefel honno. Mae'n annog Llywodraeth Cymru i lunio cynllun gofal cymdeithasol a ariennir yn llawn ac i bwyso ar Lywodraeth y DU am y cyllid angenrheidiol. Mae angen mwy o gydnabyddiaeth o rôl a phwysigrwydd gofal cymdeithasol a mwy o gydweithio a gwaith atal gyda'r GIG.

Gwerthfawrogir y cynnydd yn y cap wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl ond hoffai'r Cyngor gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl er mwyn iddo wneud newidiadau a fyddai'n helpu i wrthbwyso pwysau cost cynyddol gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n awgrymu cyflwyno ffordd o ganiatáu i'r cap gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

Mae Sir Fynwy yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion pobl ddigartref ac mae'n pryderu y bydd rhai gostyngiadau mewn grantiau yn effeithio ar y mater hwn. Mae'n

gofyn am i fwy o gyllid ar gyfer digartrefedd a chymorth tai gael ei ddarparu yn y cynigion cyllidebol terfynol.

Nid yw'r agenda Dileu Elw, sydd â'r nod o ddileu elw yn y farchnad plant mewn gofal a gwella eu deilliannau, wedi'i hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n creu ansicrwydd gweithredol ac ariannol i gynghorau. Mae cyllid penodol wedi cael ei gadarnhau tan 2024-25 ond bydd pwysau gweithredol a sgil effaith yn parhau y tu hwnt i hynny.

Ni fydd yn gallu ariannu'r holl bwysau sy'n ymwneud ag ysgolion felly bydd yn rhaid i ysgolion wneud arbedion effeithlonrwydd a chyfrannu at yr heriau cyllidebol ehangach. Mae ysgolion hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ran cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn ogystal â gwella safonau a chefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae balansau is a diffygion cynyddol i ysgolion yn achos pryder sy'n gofyn am fwy o gamau adferol gan y Cyngor ac ysgolion.

Mae'r gostyngiad arfaethedig mewn rhyddhad i dalwyr ardrethi annomestig, yn enwedig yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn achos pryder a allai beri i fusnesau adleoli yn Lloegr. Mae pawb yn wynebu heriau costau byw ac er bod y Cyngor yn gwerthfawrogi pecynnau cymorth blaenorol, mae'r gostyngiad arfaethedig a sylweddol mewn rhyddhad ardrethi a'r cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig yn ormod o faich i gynnal busnesau lleol. Mae'n annog Llywodraeth Cymru i ailystyried a rhoi mwy o gymorth i fusnesau er mwyn lleihau'r difrod parhaol ar economi Cymru.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol o ran cynllunio ariannol, dylid pwyso ar lywodraeth y DU i roi cynnydd cyllidol dangosol mwy dibynadwy yn y tymor canolig. Mae cronfeydd wrth gefn Sir Fynwy ar lefel isel iawn o gymharu â rhai cynghorau ac mae'n awgrymu y dylai hyn gael ei ystyried wrth ddosbarthu neu ddyrannu grantiau penodol.

Fel awdurdod gwledig, mae'n wynebu heriau penodol o ran defnyddwyr gwasanaethau e.e. gofal cymdeithasol, casglu gwastraff a thrafnidiaeth a phriffyrdd. Cydnabyddir yr anawsterau hyn drwy gynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol er mwyn gwrthsefyll ynysigrwydd gwledig. Mae'n gofyn am i gyllid fod yn seiliedig ar system decach sy'n cydnabod yr heriau gwledig unigryw y mae'n eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau dros ardal ddaearyddol amrywiol.

Mae'r Cyngor yn cytuno â'r nod o leihau biwrocratiaeth ddiangen o ran grantiau ac yn croesawu'r newid tuag at setliad heb ei neilltuo. Mae hefyd yn croesawu'r penderfyniad i resymoli grantiau addysg. Mae'n parhau i bwysleisio'r angen i gael ei hysbysu am grantiau ar gam cynnar er mwyn helpu i gynllunio cyllideb y flwyddyn nesaf.

Gan fod ymgorffori newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng hinsawdd yn cyd-fynd ag ymrwymiad ac uchelgeisiau Sir Fynwy, mae'n ceisio eglurder ynglŷn â'r cyllid sydd ar gael i gefnogi'r broses o bontio i sero net.

Er bod cyllid cyfalaf wedi parhau ar yr un lefel â'r flwyddyn gyfredol, mae'n ostyngiad mewn termau real yn y grantiau cyffredinol a'r grantiau penodol. Codir pryderon ynglŷn ag effaith hyn ar allu'r Cyngor i ymdrin â phwysau cyfalaf nas ariannwyd a galluogi buddsoddi mewn meysydd â blaenoriaeth.

Mae Sir Fynwy yn rhannu'r nodau cyffredin o leihau anghydraddoldeb a thlodi a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Ceir cydnabyddiaeth glir gan bawb o'r heriau sy'n gysylltiedig â chostau byw a'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus,

ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru drwy'r bartneriaeth gymdeithasol sy'n rhwymo'r naill a'r llall fel gwasanaethau cyhoeddus.

**Cyngor Sir Penfro – Setliad Dros Dro o 2.5%**

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r ffaith bod amseriad Datganiad Hydref y Llywodraeth y DU wedi achosi oedi cyn cyhoeddi'r setliad dros dro ond mae'n gobeithio y bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref unwaith eto gyda'r setliad terfynol ym mis Rhagfyr yn y dyfodol.

Wrth i'r Cyngor wynebu heriau ariannol digynsail, byddai'n croesawu cael dyraniadau cyllid refeniw craidd a grantiau cyfalaf a refeniw dangosol ar lefel Cymru gyfan ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Cyngor o ran ei gynllunio ariannol yn y tymor canolig.

Mae'n siomedig gyda'i gynnydd o 2.5% yn ei Gyllid Allanol Cyfun am nad yw'n cael fawr effaith ar ei bwysau chwyddiannol o £22.6m. Mae'n bosibl y bydd y pwysau hyn yn cynyddu ymhellach unwaith y bydd effaith y gostyngiad o 6.3% mewn grantiau refeniw ar lefel Cymru gyfan yn hysbys ar lefel cynghorau.

Er mwyn llunio cyllideb wedi'i mantoli y flwyddyn nesaf, bydd angen cynnydd o 17% neu fwy yn y Dreth Gyngor (Band D) neu arbedion cyllidebol o tua £12m. Bydd angen hefyd i'r Cyngor ddefnyddio elfen sylweddol o bremiymau'r Dreth Gyngor i ariannu'r elfennau o'r gyllideb sy'n ymwneud â 'thai fforddiadwy a gwella cynhaliadwyedd cymunedau lleol' yn ogystal â defnyddio cronfeydd wrth gefn.

Mae'n gobeithio y bydd cadarnhad cynnar yn cael ei roi ynglŷn â'r cynnydd parhaol i ariannu cyfraniad y cyflogwyr gwerth £3m at bensiynau athrawon.

Mae'n dadlau o blaid cynnwys nifer sylweddol o grantiau penodol yn y setliad fel cyllid heb ei neilltuo, a thrwy hynny leihau'r baich ar ei weithlu sy'n gysylltiedig â gweinyddu a rheoli grantiau a'i helpu gyda'i waith cynllunio ariannol.

Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er ei fod yn parhau ar yr un lefel yn 2024-25, yn ostyngiad blynyddol arall i bob diben ac yn cynyddu'r bwlch cyllido. Mae costau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r Cyngor tua £3.5 yn fwy na'r cyllid a dderbynnir felly hoffai weld cynnydd i lefel lle mae wedi'i ariannu'n llawn.

Mae'n wynebu heriau penodol yn sgil yr amcangyfrifon y bydd pwysau'r galw am Ofal Cymdeithasol i Blant yn costio £9.6m, Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn costio £5.1m a Digartrefedd yn costio £1.2m y flwyddyn nesaf.

Yn genedlaethol, mae gan blant sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaethau Plant broblemau llawer mwy cymhleth na chynt, sydd wedi arwain at gynnydd dramatig yn nifer y plant y mae angen lleoliadau brys neu arbenigol arnynt. Mae hon yn her sylweddol i'r Awdurdod o ran dod o hyd i ddarpariaeth gofrestredig a chosteffeithiol er m wyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae gan y Cyngor un o'r lefelau uchaf o fewnfudo gan bobl hŷn ac mae'n rhaid ymdopi â galw ar lefelau uchel estynedig ynghyd â chymhlethdodau cysylltiedig. Mae gofal cymdeithasol yn cefnogi pobl a chadernid ehangach y system iechyd ond mae hyn yn gofyn am adnoddau. Mae'n pryderu'n fawr ynglŷn â'r pwysau presennol ar ofal cymdeithasol oherwydd demograffeg sy'n tyfu, yr argyfwng costau byw a phwysau chwyddiannol gan nad yw ei gyllideb yn ymestyn yn ddigon pell.

Mae gan y Cyngor nifer mawr o bobl ddigartref y mae'n ofynnol iddo eu cefnogi, sydd wedi arwain at bwysau sylweddol sy'n gysylltiedig â chostau llety dros dro. Mae cyllid 'Grant Neb Heb Help' yn gwrthbwyso rhan o gostau rhywfaint o lety dros dro ond mae nid yw'n ddigon i dalu am yr holl gostau.

Mae'r pwysau gwirioneddol ar ysgolion yn parhau lle mae angen cymorth ar fwy o ddysgwyr nag erioed ac er mwyn sicrhau cynnydd. Effeithir ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed

am fod penaethiaid yn gorfod lleihau nifer y staff cymorth a rhaglenni ymyrryd er mwyn cynnal cymarebau rhwng athrawon a disgyblion. Mae hyn yn arwain at fwy o ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd cadw eu lle yn yr ysgol, mwy o waharddiadau a fydd yn arwain at fwy o bwysau ar gynghorau i ariannu darpariaeth amgen gostus a phwysau cyllidebol.

Mae balansau ysgolion y cyngor wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd pwysau chwyddiannol gwahanol. Mae naw ysgol sydd â diffyg yn eu cyllideb ac yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd mwy yn yr un sefyllfa neu'n dod yn agos iddi. Mae eu timau addysg canolog wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn parhau i fod o dan bwysau wrth ddarparu, cefnogi a rheoli'r gwasanaethau statudol hyn, gan gynnwys gwasanaethau gwella a dysgu ychwanegol, a gwasanaethau ieuenctid a throseddwyr ifanc.

Er mwyn mantoli'r gyllideb dros y tymor canolig, bydd yn rhaid i'r cyngor ystyried a fydd yn parhau i ddarparu gwasanaethau dewisol a lefel y gwasanaethau statudol a ddarperir. Byddai o gymorth pe gallai awdurdodau gael manylion am yr hyn a ystyrir yn lefel dderbyniol o ddarpariaeth gwasanaethau sy'n dal i fodloni gofynion deddfwriaethol. Oherwydd y cynnydd digynsail mewn gwasanaethau i blant a'r cynnydd demograffig a ragwelir, ni fydd y Cyngor yn gallu parhau i ddarparu'r lefel ddiogel ofynnol o wasanaethau statudol heb adnoddau ariannol ychwanegol.

Mae Sir Benfro yn nodi y gall y setliad arfaethedig roi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg.

Gyda'r heriau ariannol digynsail a wynebir, mae'n rhaid i'r “dull partneriaeth” rhwng Llywodraeth Cymru, CLlLC ac awdurdodau lleol barhau yn y dyfodol er budd llywodraeth leol yng Nghymru.

**Cyngor Sir Ceredigion – Setliad Dros Dro o 2.6%**

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai cyllideb 2024-25 yw'r un fwyaf llym a phoenus ers datganoli ond bod Llywodraeth Cymru wedi cadw at y cynnydd o 3.1% i awdurdodau lleol ar sail Cymru gyfan a gyhoeddwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r ei dirwedd ariannol yn wahanol i'r hyn y mae mynegeion chwyddiant cenedlaethol yn ei awgrymu. Mae ei wasanaethau o dan gryn bwysau costau, sy'n hafal i ffactor chwyddiant penodol y Cyngor o 10.1% ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gyda chynnydd o 2.6% yn unig yn y setliad, ceir diffyg sylweddol o £14.6m y bydd angen dod o hyd iddo drwy gyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb ac ystyriaethau anodd iawn o ran y dreth gyngor.

O fewn y cynnydd ar gyfer y setliad i Gymru gyfan, mae amrywiaeth eang o gynnydd ar lefel awdurdodau lleol o 2.0% i 4.7%. Mae'n amlwg hefyd fod swm ychwanegol o £1.3m wedi cael ei ddarparu y tu allan i'r setliad i roi cymorth i ddau gyngor (Cyngor Gwynedd a Chyngor BS Conwy) drwy gyllid gwaelodol. Nid yw'n amlwg pam na ellid bod wedi defnyddio lefel uwch o gyllid gwaelodol a thrwy hynny sicrhau llai o amrywiaeth o ran cynnydd a mwy o gysondeb ar tua 3.1%.

Mae Ceredigion wedi lobïo droeon am gyllid gwaelodol pan oedd wedi bod ar waelod tabl y setliad neu'n agos iddo. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth na diogelwch i'r Cyngor er gwaethaf y cynnydd pan oedd yn safle 22 yn y tabl yn 2021-22 (defnyddiwyd set ddata o'r boblogaeth) gyda chynnydd o 1.96% i 5.6% a chyfartaledd o 3.8% dros Gymru gyfan.

Mae rhai awdurdodau yn amlwg wedi cael mantais ariannol am fod eu poblogaeth wedi cael eu gorddatgan yn ystod rhan olaf y degawd diwethaf a'r defnydd o setiau data amcangyfrifedig. Roedd yr awdurdodau hyn yn dal i gael mantais yn 2023-24 am i ddata cyfartalog Cyfrifiad 2021 ac amcanestyniadau seiliedig ar 2018 gael eu defnyddio yn hytrach na newid yn gyfan gwbl i ddata'r Cyfrifiad. Dangosodd data Ceredigion o Gyfrifiad 2021 fod gostyngiad yn y boblogaeth wedi cael ei orddatgan, sydd wedi golygu afles gwerth dros £825k yn ystod 2021-22 a 2022-23 i'w drethdalwyr. Felly, dylai'r setiau data mwyaf cyfredol o'r boblogaeth gael eu defnyddio lle bynnag y bo modd. Mae hefyd yn gofyn am i drefniadau cyllid gwaelodol uwch (llawer yn agosach i 3.1%) gael eu rhoi ar waith ar gyfer setliad terfynol 2024-25.

Mae'n ymddangos bod effaith anghymesur ar awdurdodau gwledig a'r rhai sy'n wynebu poblogaeth sy'n heneiddio (sydd bellach yn uwch na nifer y plant oedran ysgol sy'n lleihau). Mae cost gynyddol gwasanaethau cludiant mewn ardaloedd gwledig yn mynd yn broblem ariannol sylweddol nad yw'n cael ei chydnabod. Dylai'r fethodoleg hon gael ei hadolygu er mwyn i'r setiau data cywir sy'n ymwneud â'r pwysau ar ofal cymdeithasol gael eu cydnabod yn briodol yn y cyfrifiadau sy'n sail i'r setliad. Mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Is-grŵp Dosbarthu sicrhau bod y data ar amrywiaeth y setliad yn dal yn addas at y diben, yn enwedig y pwysau ar ofal cymdeithasol a wynebir ledled Cymru.

Nid yw'r cynnydd o 9.4% yng nghyllideb Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gydnaws â chynnydd o 2.6% yn y setliad a bydd yn arwain at faich anghymesur i'w drethdalwyr.
Mae asesiad o wariant safonol Tân y Cyngor £1m yn is na'r ardoll arfaethedig ar gyfer 2024-25 a chan mai'r Awdurdod Tân yw'r corff sy'n codi'r ardoll, mae'n rhaid i'r Cyngor esbonio i breswylwyr pam bod angen cynyddu bil y dreth gyngor dros 1% i ariannu hyn yn unig. Mae'r broblem ychwanegol ynglŷn â phensiynau diffoddwyr tân a'r cynnydd yng nghyfraniad y Cyflogwr hefyd yn codi.

Mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried a ddylai Awdurdodau Tân fod yn gyrff sy'n codi praesept yn yr un ffordd ag Awdurdod yr Heddlu a Chynghorau Cymuned. Mae'n gofyn am sicrwydd ac eglurder i'r Awdurdod Tân o ran costau ychwanegol pensiynau diffoddwyr tân a chan mai'r Awdurdod Tân yw'r corff cyflogi, yr awdurdod hwnnw ddylai gael unrhyw grant pensiynau yn hytrach na'r awdurdod lleol.

Cydnabu'r Cyngor y Dyfarniad Cyflog Athrawon ychwanegol yn 2023-24 ond nid oedd yn ddigonol ac roedd Ceredigion yn ariannu 92% ohono ar y gorau. Fel mater datganoledig, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau dilynol i sicrhau ei fod yn cael ei ariannu'n llawn. Bydd y cynnydd yng nghyfraniad y Cyflogwr yn arwain at gost ychwanegol o £1.4m a cheisir sicrwydd gan mai Llywodraeth y DU fydd yn darparu'r cyllid, y bydd yn niwtral o ran costau i awdurdodau yn hytrach na bod yn bwysau costau ysgolion dirprwyedig arall.

Mae'n gofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i strwythur cyflog safonol ar wahân ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac mae hefyd yn herio a yw proses gyflog bresennol y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn dal i fod yn addas at y diben ar gyfer cyflogeion y sector cyhoeddus nad ydynt yn addysgu yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn parhau i gael ei ariannu'n 100% ar lefel genedlaethol. Nid yw'r cynnydd o 10.1% yn y Cyflog Byw Gwirioneddol yn gydnaws â'r cynnydd o 2.6% yng nghyllid y setliad ac felly ni all ariannu'r ymrwymiad hwn mwyach heb iddo fynd yn faich ar ei drethdalwyr. Mae'n gofyn am i arian ychwanegol gael ei ddarparu i ariannu'r ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn llawn.

Mae'r toriad arfaethedig yng Ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn peri penbleth mawr yn wyneb yr heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol. Gan fod hwn yn grant hollbwysig mae'n gofyn am i'r toriad gael ei ddadwneud o leiaf neu i gyllid ychwanegol gael ei ddarparu.

Nid yw'r tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl megis Gofal Cartref wedi cael ei adolygu ers sawl blwyddyn. Mae'n gofyn am i drefniadau codi tâl asesiadau ariannol ar gyfer gofal cymdeithasol gael eu hadolygu, gan gynnwys cynyddu'r tâl wythnosol o £100 am ofal cymdeithasol amhreswyl er mwyn ystyried chwyddiant o leiaf.

Mae'r setliad dros dro yn nodi bod swm o £244m wedi'i gynnwys i barhau â'r hawliau llawn o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ond nid hwn wedi newid ers blynyddoedd blaenorol. O gymharu â'i ofyniad cyllidebol o £6.5m ar gyfer 2023-24, a hyd yn oed cyn ystyriaethau 2024-25, ceir diffyg sylweddol o fwy na £1.3m. Mae'r cynllun ymhell o fod wedi'i ariannu'n llawn ac mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod y ffaith mai cynllun cenedlaethol heb fawr ddim disgresiwn lleol ydyw yn bennaf, a mynd i'r afael â hynny. Pan fydd disgresiwn lleol yn cael ei arfer, mae ond yn ychwanegu costau ychwanegol bach iawn.

Mae'n parhau i fod yn hynod siomedig gyda lefel y cyllid cyfalaf. Nid yw'r sefyllfa unffurf i Gymru gyfan yn ymdrin â'r chwyddiant sylweddol mewn contractau sydd wedi dwysáu ar ôl sawl blwyddyn o gyllid cyfalaf annigonol. Mae'r cyllid cyfalaf craidd cyfredol yn dal i fod yn is na'r cyllid a gafwyd dros 15 mlynedd yn ôl mewn termau arian parod ac mae'n doriad mewn termau real.

Mae i'r penderfyniad i gyfuno'r grantiau addysg oblygiadau sylweddol o bosibl ar lefel ysgolion unigol. Mae'n hanfodol bod effaith fanwl y newidiadau hyn yn cael ei chyfleu ar y cyfle cyntaf posibl er mwyn i benaethiaid a llywodraethwyr allu cynllunio eu cyllidebau yn unol â hynny.

Drwy gyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru a'r setliad terfynol ar yr un diwrnod mae hynny'n golygu nad oes fawr ddim amser i gynghorau bennu eu cyllidebau na'r dreth gyngor ymlaen llaw erbyn y gofyniad cyfreithiol, sef 11 Mawrth. Dylai prif swyddogion cyllid gael eu hysbysu dros dro ar y cyfle cyntaf posibl am unrhyw newidiadau arfaethedig i setliad terfynol 2024-25 ac i grantiau addysg penodol.

Mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu a lleihau baich awdurdodau lleol o ran Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sicrhau bod yr holl gostau yr eir iddynt yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol i awdurdodau yn Lloegr yn ddiweddar drwy ddefnyddio fformiwla Barnett. Mae'n hanfodol bod 100% o symiau canlyniadol Barnett yn cael eu trosglwyddo i lywodraeth leol er mwyn cyfateb yr ymrwymiad a roddwyd i'r awdurdodau lleol yn Lloegr.

Gan y bydd y cwantwm cyllido tebygol tua £30m, mae Ceredigion yn gofyn am gyllid gwaelodol o 3.1% o leiaf yn y setliad terfynol i bob awdurdod lleol yng Nghymru a bod y toriad arfaethedig yng Ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddadwneud.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Setliad Dros Dro o 2.0%**

Er bod y Cyngor yn ddiolchgar bod cyllido gwaelodol wedi cael ei gymhwyso, bydd y cynnydd o 2% yn ei setliad yn cael effaith niweidiol ar yr amrywiaeth o wasanaethau a lefel y gwasanaethau y gall eu darparu i breswylwyr. Mae'n hafal i ychydig dros £4.1m tuag at chwyddiant cyflogau a phrisiau a'r galw cynyddol am wasanaethau sydd wedi cael ei waethygu ymhellach gan y penderfyniad i dynnu'n ôl y grant i

ariannu cynnydd dyfarniad cyflog Medi 2022 i athrawon – baich ychwanegol o £800,000. Bydd yn costio £5.3m yn ychwanegol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i holl weithwyr gofal Cymru wrth i ffioedd gofal gynyddu'n unol â'r cynnydd chwyddiannol. Cyflwynwyd cyllid fel rhan o'r setliad pan wnaed yr ymrwymiad yn wreiddiol ond ni chafwyd rhagor o gydnabyddiaeth ers hynny i ariannu'r pwysau parhaus o ganlyniad i'r twf blynyddol mewn cyflogau.

Mae hefyd yn wynebu nifer o bwysau eraill, gan gynnwys dyfarniadau cyflog athrawon a staff llywodraeth leol, chwyddiant cyffredinol, cost uwch benthyca a'r pwysau sylweddol seiliedig ar alw ym maes gofal cymdeithasol a digartrefedd, sef cyfanswm o £29m. Mae'n wynebu diffyg adnoddau gwerth £25m ar hyn o bryd. Er i'r Cyngor bennu'r cynnydd mwyaf yn y dreth gyngor yng Nghymru ym mis Ebrill 2023, bydd yn rhaid iddo unwaith eto ystyried cynnydd uwch na'r hyn y byddai am ei godi ar breswylwyr sy'n dal i ymdopi â'r argyfwng costau byw. Ni all y dreth gyngor wneud iawn am ddiffyg o £25m ac felly bydd yn gorfod ystyried nifer o benderfyniadau annymunol ynglŷn â lefel ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a fydd yn cael effaith negyddol ar eu preswylwyr.

Mae'n sicr o'r farn bod y fformiwla dyrannu cyllid wedi dyddio, ei bod yn ddiffygiol yn ei hanfod ac nad yw'n addas at y diben mwyach a'i bod yn creu anghydraddoldeb ledled Cymru.

Poblogaeth Conwy sydd â'r gyfran uchaf (27%) o breswylwyr 65 oed a hŷn yng Nghymru ond nid yw'r fformiwla gyllido yn ystyried y data mwyaf diweddar sydd ar gael yn y mesur hwn.

Nid oes unrhyw gydberthynas rhwng y costau a ddyrennir o dan y fformiwla mewn perthynas â phreswylwyr oedrannus a chost wirioneddol darparu gwasanaethau a gofal ar hyn o bryd. Mae cyfran uchel, yn unigryw, o wasanaethau gofal y Cyngor, gan gynnwys gwasanaethau statudol, yn cael eu darparu gan ddarparwyr allanol sy'n cynyddu eu costau ymhell uwchlaw chwyddiant a'r cynnydd o 2%.

Mae Sir Ddinbych a Gwynedd yn siroedd tebyg i Gonwy ond eto mae'n parhau i gael cyllid y pen yn y setliad sydd dipyn yn is na chyllid y ddau gyngor hyn. Pe bai'n cael cymorth ar yr un lefel â Sir Ddinbych, byddai hynny'n cyfateb i gael £28m arall o gyllid. Er bod y Cyngor yn cydnabod bod rhai gwahaniaethau rhyngddo a Sir Ddinbych lle ceir rhai ardaloedd o amddifadedd mawr, maent yn rhannu llawer o nodweddion tebyg i'r graddau y mae gwahaniaeth o tua £28m yn groes i bob rhesymeg.

Yn y ddau setliad blaenorol, mae Conwy wedi dioddef o ganlyniad i ailddosbarthu'r data wedi'u diweddaru ar y boblogaeth yn sgil y cyfrifiad diwethaf. Er bod y boblogaeth ond wedi gostwng o ychydig yn gyffredinol, mae wedi colli cryn dipyn o gyllid o'i gymharu ag eraill. Dylid ystyried rhoi cyfnod hwy o ddiogelwch dros dro/pontio i awdurdodau y mae eu cyllid yn gostwng oherwydd gostyngiad yn y boblogaeth.

Dros y deng mlynedd diwethaf mae wedi gwneud toriadau gwerth mwy na £80m, a bydd angen toriadau rheolaidd ychwanegol gwerth mwy na £10m er mwyn mantoli ei gyllideb yn 2024-25. Am ei bod yn ofynnol pennu cyllideb fantoledig o dan y gyfraith, mae gwasanaethau'n cael eu torri'n fawr er mwyn iddo allu gwneud hyn. Bydd y toriadau diweddaraf yn effeithio ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg, ac ni ddylid diystyru effaith andwyol dros ddegawd o doriadau ar ei allu i ddarparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd da i breswylwyr.

Drwy newid ffocws grantiau, mae hyn yn arwain at leihau grantiau sy'n ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol ataliol. Mae hyn wedi golygu gostyngiad o £400k ar eu cyfer yng Ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae meini prawf grantiau yn arwain at ofynion cyflawni cynyddol a'r angen am fwy o adnoddau ac yn dwysáu anawsterau ariannol sy'n bodoli eisoes. Nid yw'r dyraniadau yn cyfrif am gynnydd chwyddiannol mewn costau. Mae'r cyllid yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau ataliol sy'n cefnogi ac yn darparu gwasanaethau craidd. Heb y gwasanaethau ataliol hyn, collir cyfleoedd i weithio'n fwy costeffeithiol, sy'n arwain at fwy o gostau ac aneffeithlonrwydd yn y tymor hwyr.

Oherwydd anawsterau i ddenu a chadw pobl yn y sector gofal cymdeithasol mae'n rhaid i'r Cyngor ddibynnu ar weithwyr asiantaeth. Mae darparwyr allanol yn wynebu cystadleuaeth oddi wrth sectorau sy'n talu cyflogau tebyg felly mae'n rhaid iddynt gynnig cyflogau uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol er mwyn denu a chadw staff. Mae hyn yn arwain at bwysau tuag i fyny ar y ffioedd gofal a godir.

Oherwydd y setliad annigonol mae addysg yn gorfod ystyried dulliau radical o ddarparu gwasanaethau, gan gynwys lleihau oriau gweithredu ysgolion a lleihau dewisiadau pwnc ar lefel TGAU a Safon Uwch. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ansawdd addysg i'w bobl ifanc. Byddai lleihau oriau gweithredu ysgolion yn rhoi pwysau ar rieni o ran darparu trefniadau gofal plant ychwanegol a chostau gofal plant cynyddol.

Mae recriwtio a chadw staff allweddol yn mynd yn fwyfwy heriol ac mae penaethiaid profiadol yn ymddiswyddo am ei bod yn amhosibl iddynt reoli cyllidebau eu hysgolion oherwydd prinder adnoddau. Mae cyllid grant yn y byrdymor hefyd yn ei gwneud yn anodd recriwtio staff i'r gwasanaeth oherwydd cyflogaeth am gyfnod penodol yn y byrdymor.

Mae costau cludiant i'r ysgol ac ynni yn parhau i gynyddu dipyn yn uwch na chyllid ei setliad.

Bydd y setliad yn amharu'n sylweddol ar allu Conwy i gyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn effeithiol. Mae wedi ceisio diogelu ysgolion rhag effaith cyllid annigonol ond y gwir yw nad oes modd gwneud hynny mwyach. Mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd gweithredu o fewn eu cyllidebau ac maent o dan bwysau cynyddol, gan gynnwys pwysau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae cyhoeddiadau a mentrau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid yn aml wedi'u targedu at ‘Iechyd a Gofal Cymdeithasol’, ond y gwir yw ei fod yn cael ei gyfeirio'n anghymesur at ddefnydd Cyrff Iechyd. Ni roddir fawr ddim sylw i gostau gofal sylweddol na'r gwaith hollbwysig i atal galw pellach ar wasanaethau iechyd drwy ymyriadau cynnar. Dylid cyfeirio mwy o gyllid yn benodol at awdurdodau lleol er mwyn cydnabod y rhan bwysig y mae gofal cymdeithasol yn ei chwarae yn gyffredinol.

Mae Conwy yn ei chael hi'n fwyfwy anodd denu a chadw staff a rhoi cymhelliant iddynt ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn yr amgylchedd sydd ohoni pan fydd cyflogau llywodraeth leol yn is o gymharu â'r sector cyhoeddus. Mae'r galw cynyddol a phrinder adnoddau yn dinistrio'r sector ac nid oes unrhyw ddewis ond cwtogi ar wasanaethau gwerthfawr neu roi'r gorau iddynt yn gyfan gwbl.

**Cyngor Sir y Fflint – Setliad Dros Dro o 2.2%**

Mae'r Cyngor yn cydnabod heriau'r setliad ariannol ond mae'n dadlau o hyd o blaid setliad gwell a theg. Mae'n benderfynol o hyd ei fod wedi'i amlygu'n sylweddol, fel

cyngor sy'n cael lefel isel o gyllid y pen, wedi degawd o gyllidebau cenedlaethol gostyngol oherwydd fformiwla'r setliad.

Mae wedi dileu 50% o'i gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau ac wedi diogelu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae tua £110m wedi cael ei dorri ers 2008-09 ac nid oes dim byd mawr ar ôl i'w gwtogi bellach. Bydd setliadau ariannol gwael ond yn gadael un opsiwn i'r Cyngor, sef rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau neu wynebu'r risg o gyhoeddi hysbysiad S114.

Mae ei gyllidebau yn heriol tu hwnt, gyda mwy na £33m o bwysau costau ychwanegol. Gwaethygir y sefyllfa hon gan ddiffyg o £6m yn ystod y flwyddyn oherwydd mwy o ddigartrefedd, pwysau costau ar ei gyllideb y tu allan i'r sir a dyfarniadau cyflog sydd wedi cael eu negodi'n genedlaethol ond heb eu hariannu'n genedlaethol. Nid yw Sir y Fflint wedi gweld diffyg mor fawr ers ei ffurfio yn 1996.

Mae'r Cyngor yn un sydd wedi'i lywodraethu'n dda ac sy'n rheoli arian yn dda ac nid yw'r heriau o ran ei gyllideb yn codi o ganlyniad i fethiant na diffyg gweithredu'r Cyngor ei hun ond o ganlyniad i ddiffyg cyllid sydd wedi gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae ei setliad o gynnydd o 2.2% yn destun siom am ei fod unwaith eto yn ei osod ymhlith y pedwar isaf yn y tabl. Mae'n teimlo bod y gogledd yn cael ei amddifadu gan Lywodraeth Cymru i bob diben gyda thri allan o'r chwe awdurdod lleol yn cael y ffigurau isaf yng Nghymru o dan y setliad. Mae'r cynnydd o'i gymharu â'i gynnydd mewn costau gweithredu yn golygu ei fod yn wynebu sefyllfa bron ag amhosibl.

Nid yw'r fformiwla gyllido bresennol yn addas at y diben ac nid yw'n adlewyrchu'r cymhlethdodau na'r gofynion ar wasanaethau lleol. Mae'r Cyngor yn derbyn bod y cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael wedi lleihau'n sylweddol sydd felly'n effeithio ar swm y setliad, ond dylid rhoi ystyriaeth ar fyrder i ddod o hyd i ddull tecach o ailddosbarthu'r cyllid hwn.

Mae'r Cap ar Ffioedd Gofal Cartref, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019, yn helpu pobl i gael gofal yn eu cartrefi eu hunain. Ers hynny, mae costau gofal cartref wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn sgil cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac wedi mynd yn fwy na'r cynnydd yn y cap ar ffioedd gofal. Dylai'r cap gynyddu £30 o leiaf a thrwy hynny alluogi awdurdodau i fuddsoddi ymhellach yn y farchnad ofal a sicrhau bod digon o wasanaethau i ddiwallu anghenion lleol.

Mae gofal cartref yn wasanaeth hanfodol i lawer o unigolion sy'n agored i niwed a heb y cymorth hwn byddai llawer yn cael anhawster i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gan eu gorfodi i ddibynnu ar opsiynau gofal mwy costau a llai personol megis cartrefi gofal preswyl. Wrth i boblogaeth Sir y Fflint heneiddio, mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn mynd yn fwy na'r cyflenwad, a rhagwelir cynnydd sylweddol yn lleol ac yn genedlaethol dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae buddsoddi mewn gofal cartref yn effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau iechyd ond os bydd gwasanaethau ar gael yn hawdd i gefnogi pobl ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, gellir lleihau'r baich ar y GIG a darparwyr gofal iechyd eraill. Heb gyllid Llywodraeth Cymru neu gynyddu'r cap, mae risg na fydd y Cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd. Mae'r cap cyfredol ar y cyllid hwn wedi dyddio ac nid yw'n ddigon i ateb y galw am wasanaethau yn y dyfodol.

Mae rhaid cael model cenedlaethol ar gyfer ffioedd cartrefi gofal yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cartrefi gofal drwy'r wlad gyfan yn codi cyfradd deg a chyson am eu gwasanaethau. Byddai'n sefydlu strwythur ffioedd safonol y byddai'n rhaid i bob cartref gofal ei ddilyn ac yn cynnig mwy o dryloywder i deuluoedd ac unigolion, yn atal arferion prisio annheg ac yn sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu hariannu'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Mae Sir y Fflint yn llwyr gefnogi bwriad strategol Llywodraeth Cymru i ddileu elw mewn gwasanaethau preswyl a maethu annibynnol i blant, ond bydd angen adnoddau llawn ynghyd â therfynau amser cyflawnadwy. Mae lefelau digynsail a defnydd cynyddol o leoliadau preswyl ac annibynol brys ynghyd â phwysau cynyddol ar leoliadau maeth yn golygu y bydd lleoliadau y tu allan i'r sir yn parhau i gynyddu y tu hwnt i'r cyflenwad. Mae'r costau hyn yn anghymesur ac yn anfforddiadwy ac yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb sydd ar gael i'r Cyngor. Mae angen cymorth ariannol penodol gyda lleoliadau nes bod model gweithredu cenedlaethol newydd yn cael ei gyflawni.

Mae'r pwysau presennol ar y system a lleoliadau wedi arwain at drefniadau pwrpasol costau ar gyfer lleoliadau i blant a phobl ifanc. Mae darpariaeth fewnol y Cyngor ei hun yn mynd ag amser ac adnoddau gyda'r costau deuol sy'n gysylltiedig ag ariannu plant mewn lleoliadau, recriwtio'r gweithlu a hyfforddiant. Mae diffyg sylweddol yn y cyllid grant a ddyrennir iddo er mwyn talu am gostau cymorth i ddatblygu gwasanaethau mewnol, a waethygir ymhellach gan y ffaith bod y cyllid grant presennol yn dod i ben yn 2024-25.

Mae pwysau ariannol sylweddol wedi cael eu hachosi gan y penderfyniad i ddyrannu 30 o blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. Nid oes unrhyw dai lleol na darpariaeth briodol i'w cefnogi felly mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r unig ddarparwr sydd wedi ymgynnig, sy'n golygu pwysau costau sylweddol. Mae'r mwyafrif o'r plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches yn 16-17 oed ac unwaith y byddant yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed, mae'r lwfans yn lleihau'n sylweddol gyda bwlch cyllido sylweddol rhwng cost y lleoliad a'r cyllid. Gan y gall gymryd hyd at bedair blynedd i benderfynu ar geisiadau am loches, gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am gyllido'r cyfan, sy'n anghynaliadwy i Sir y Fflint sydd wedi cael dyraniad uchel o blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches.

Drwy gyllid grant blaenorol bu modd i'r Cyngor fuddsoddi mewn cymorth dwys amserol i deuluoedd. Mae anghenion cymhleth a lefel y galw wedi cynyddu ar yr union adeg y daeth y grantiau i ben ac y cawsant eu hailgyfeirio i helpu i ddatblygu gofal maethu a phreswyl mewnol. Mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar ei allu i ymateb i'r galw a nifer yr ymyriadau y gellir eu cynnig. Mae angen buddsoddiad ariannol i adlewyrchu'r galw am wasanaethau a galluogi'r awdurdod i ddarparu gwasanaethau craidd ymatebol.

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2023-24 yw'r tro cyntaf y mae data wedi cael eu casglu ers cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd. Mae'r canllawiau yn nodi na ddylai dysgwyr sydd ond yn gymwys i brydau ysgol am ddim o dan y polisi prydau am ddim oherwydd credyd cynhwysol gael eu cofnodi fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd setliad 2023-24 yn defnyddio'r data ar y cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim wedi'u diweddaru drwy bennu cyfartaledd dros 4 blynedd o 2017, 2018, 2021 a 2022, heb gynnwys y rhai a oedd wedi'u diogelu dros dro. Cynhaliodd Sir y Fflint ymarfer glanhau data a lleihaodd y niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Arweiniodd hyn at bwysau cynyddol i gynnig mesurau diogelu dros dro ar gyfer prydau ysgol am ddim heb gymorth ariannol, gan arwain at lai o gyllid. Mae'n pryderu bod gweithredu anghyson ledled Cymru sy'n arwain at ganlyniad annheg o ganlyniad i'w waith i adnewyddu a diweddaru data yn rheolaidd. Dylai fod oedi er mwyn edrych ar yr eglurder cynyddol o ran methodoleg data a pha mor aml y caiff data eu hadnewyddu.

Roedd grant Adnewyddu Priffyrdd 2018-22 yn gyllid a groesawyd yn fawr ac mae ei absenoldeb yn achosi her sylweddol. Heb gyllid penodol, bydd y gwaith o gynnal a chadw a gwella ffyrdd yn mynd yn fwyfwy anodd. Pe bai'r grant yn cael ei ailgyflwyno byddai hynny yn rhoi cymorth mawr ei angen i awdurdodau. Drwyddo byddai modd iddynt flaenoriaethu gwaith atgyweirio ac uwchraddio allweddol, a fydd yn arwain at

wella diogelwch ar y ffyrdd, llai o ddamweiniau, llif traffig mwy di-dor a llai o dagfeydd. Byddai hefyd yn gam strategol tuag at ymateb i heriau sylweddol o ran seilwaith sy'n gosod beichiau adweithiol ar gyllidebau refeniw yn ystod y flwyddyn mewn cynghorau.

Mae Sir y Fflint, am ei bod yn ffinio â Lloegr, yn wynebu heriau unigryw o ran recriwtio staff i swyddi yn y cyngor am fod lleoliadau agos megis Lerpwl, Manceinion a Wirral yn denu darpar gyflogeion allan o Gymru i swyddi sy'n talu cyflogau sylweddol uwch. Mae hyn yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i'r Cyngor lle mae'n cael anhawster cystadlu â'i gymdogion yn Lloegr ac yn arwain at sefyllfa lle mae ei sylfaen gyflogau yn symud tuag i fyny er mwyn cyfateb i eraill. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol eto ar y gyllideb refeniw sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor neilltuo cyfran fwyaf er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau yn gallu llenwi swyddi gwag neu recriwtio drwy asiantaethau staff ar gyfer swyddi sy'n hanfodol i'w fusnes.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod y setliad anodd tu hwnt o ystyried y pwysau chwyddiannol ac ariannol ynghyd â'r diffyg arian ychwanegol o Ddatganiad yr Hydref.

Mae elfennau o'r setliad a'r fformiwla gyllido wedi dyddio ac mae CLlLC yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i gadw'r momentwm i'w diweddaru a pharhau â'r ymrwymiad yn rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu.

Mae'n cydnabod bod Gweinidogion wedi brwydro i sicrhau cyllid craidd o 3.1% (£170m) a bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd â'r uchelgeisiau dros eu cymunedau a rennir ganddynt. Fodd bynnag, mynegir barn gref mewn llywodraeth leol nad yw'n ddigon i ddiogelu gwasanaethau craidd ac y bydd y swm ond yn talu am draean o'r pwysau costau a wynebir gan wasanaethau lleol. Bydd y blwch hwn yn uwch os na chaiff pensiynau athrawon eu hariannu gan y Trysorlys.

Mae bwlch cyllid o fwy na £430m yn y setliad a bydd cynghorau yn wynebu bwlch cyllideb a dewisiadau anodd wrth fantoli eu cyllidebau. Mae hyn yn cynnwys toriadau mewn gwasanaethau mewn rhai o'r meysydd mwyaf sensitif mewn ysgolion a gofal cymdeithasol, a dileu miloedd o swyddi. Bydd y dreth gyngor, yn anochel, yn uwch wrth iddynt ymdrechu i gau'r bwlch cyllido a phennu cyllidebau mantoledig yn ystod argyfwng costau byw. Bydd cadernid ariannol rhai awdurdodau yn mynd yn fregus iawn.

Mae CLlLC yn deall pwysigrwydd GIG Cymru a Trafnidiaeth Cymru sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn eu cyllid. Mae dyraniadau o wariant refeniw ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG wedi cynyddu £725 miliwn ar ben y cynlluniau gwariant presennol. Mae'n cefnogi'r GIG ond, gan fod angen ystyried anghenion iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd, mae'n ofni y bydd y penderfyniadau anodd sy'n cael eu gwneud mewn gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hadlewyrchu ar draws y portffolio iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Bydd y gostyngiad o £10m yng Ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cael effaith ar y GIG yn ogystal â chynghorau yn y pen draw wrth iddynt gael anhawster i recriwtio a chadw'r gweithlu sydd ei angen. Mae'n pryderu o hyd am ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn gofal wedi'i gomisiynu gan nad yw'r cyllid yn amlwg ar gael.

Er ei fod yn gwerthfawrogi natur adeiladol ac agored y broses gyllidebu, mae'n gofyn am i unrhyw gyllid ychwanegol y deuir o hyd iddo ar y cam hwn gael ei ddefnyddio i ddiogelu gwasanaethau lleol hollbwysig yn 2024-25. Mae'n gofyn am ddadwneud y toriadau i Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a rhoddir arwyddion cynnar ynglŷn â chynyddu'r cap gofal a'r lwfans isafswm incwm. Byddai hyn yn galluogi cynghorau i

ystyried hyn wrth bennu eu cyllidebau ac osgoi toriadau niweidiol. Byddai'r camau hyn yn helpu i liniaru risgiau pellach i wasanaethau cymdeithasol, a'r GIG yn y pen draw.

Mae'n croesawu'r ddeialog a'r ymgysylltu sy'n parhau ac yn teimlo bod achos cryf dros adfer cyllid rheolaidd ar gyfer cytundeb cyflog 2023-24 athrawon.

Mae CLlLC yn croesawu'r penderfyniad i gyfuno grantiau addysg gan y bydd yn lleihau biwrocratiaeth a'r baich gweinyddol. Fodd bynnag, mae'n pryderu o hyd ynglŷn â chyllid grant arall, yn enwedig y grantiau nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto.

Mae nifer o gyfrifoldebau deddfwriaethol newydd ac ymrwymiadau newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n pwysleisio'r ffaith y dylai fod ymrwymiad clir bod cyfrifoldebau newydd yn cael eu hariannu'n llawn.

Mae'n gobeithio y bydd cyllid ychwanegol i Gymru yng Nghyllideb Gwanwyn Llywodraeth y DU a fyddai'n helpu i gynyddu'r setliad ariannol. Mae yn bendant o'r farn bod y cyllid gwerth £600m a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn swm canlyniadol a ddylai gael ei roi'n uniongyrchol i lywodraeth leol. Byddai hyn yn cyfrannu at y bwlch cyllido o £432m lle mae toriadau neu bwysau heb eu cyllido mewn meysydd penodol.

Hoffai ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru am ymgysylltu ar adeg mor heriol a bydd yn parhau i gydgysylltu â nhw ar effaith trafodaethau a phenderfyniadau cyllidebol.